**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**28 Mawrth 2024**

0900 – 1400

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Jan Chaudhry Van der Velde a Marie Daly.

**Hefyd yn bresennol**
Julian Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol Cysylltiol) a Jeremy Morgan (Ysgrifennydd).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Alexia Course a Peter Strachan.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**
Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau a gyhoeddwyd yn gyfredol ac nad oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol i'w datgan yn ymwneud yn benodol ag eitemau ar yr agenda.

**2. Sylw i ddiogelwch.**
Cafodd yr aelodau drosolwg o Gynllun Iechyd, Diogelwch a Chadernid Busnes TrC. Mae'r cynllun yn cynnwys adrannau ac amcanion cyffredinol sy'n ymwneud â rheilffyrdd, bysiau a Pullman. Nododd y Bwrdd a chroesawodd y cynllun ac yng nghyd-destun y cyfarfod, yr amcanion rheilffyrdd yn benodol.

**3. Sylw i Gwsmeriaid**
Cafodd y Bwrdd grynodeb o'r gwaith diweddar o gynllunio a chyflawni gweithrediadau penodol sy'n ymwneud â gemau rhagbrofol pêl-droed Pencampwriaeth yr Ewro. Roedd gwersi wedi cael eu dysgu o heriau gweithredol blaenorol er mwyn gallu cynllunio a darparu digwyddiadau'n fwy effeithiol ar sail gwell ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynllun trenau pwrpasol a chynlluniau wrth gefn. Croesawodd y Bwrdd y gwaith o weithredu'r cynllun yn llwyddiannus, gan gynnwys adborth cadarnhaol gan randdeiliaid a barn cwsmeriaid. Nododd y Bwrdd fod gwasanaeth terfynol Gogledd Cymru wedi'i ohirio'n fwriadol oherwydd ymestyn y gêm yng Ngwlad Pwyl i amser ychwanegol a chosbau. Cytunwyd na fyddai'r oedi'n cael ei gynnwys mewn data perfformiad. Dymunai'r Bwrdd ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r gwaith o gynllunio a chyflawni'r gweithrediad yn llwyddiannus **[Cam gweithredu Lewis Brencher]**.

Trafododd y Bwrdd gamddealltwriaeth ddiweddar yn ymwneud â digwyddiad Cross Country Trains ger Cheltenham. Roedd gwersi i'w dysgu ynghylch yr amser a gymerwyd i gwblhau'r ymchwiliad.

Trafododd y Bwrdd lefelau salwch a darpariaeth iechyd galwedigaethol.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2024 fel cofnod gwir a chywir. Nodwyd y Log Camau Gweithredu.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

- Roedd y gwasanaeth a ddarparwyd wedi gwella yn ystod Cyfnod 12 y Rheilffyrdd (y cyfnod) gan barhau â'r llwybr perfformiad da diweddar, gan ddangos y statws cadarnhaol presennol o ran criw trenau, sydd bellach angen ei gyfateb â gwell argaeledd cerbydau er mwyn gallu gwella ymhellach. Nododd y Bwrdd faterion diweddar ynghylch dibynadwyedd injan Class 231 sydd wedi effeithio ar wasanaethau rheilffordd Rhymni ac y mae'r gwneuthurwr yn chwilio am ateb ar eu cyfer.
- Achosodd llifogydd lleol yn ystod y cyfnod broblemau ar draws y rhwydwaith sydd wedi cael eu trafod gyda Network Rail. Nododd y Bwrdd ymchwil parhaus gan Network Rail a'r Bwrdd Diogelwch a Safonau Rheilffyrdd (RSSB) sy'n edrych ar rinweddau asesiadau risg mwy lleol a defnyddio cyfyngiadau cyflymder 'cyffredinol' ar draws y rhwydwaith.
- Caeodd y gwaith peirianyddol arfaethedig yn ddiweddar yng ngorsaf Caerdydd Heol y Frenhines am bedwar diwrnod, a bwriedir cau'r gorsafoedd eto dros benwythnos y Pasg. Bydd y gwersi a ddysgir o'r cyfnod cau cyntaf yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith penwythnos y Pasg.
- Mae prinder locomotifau y gellir eu gwasanaethu yn dal i effeithio ar wasanaethau MKIV. Mae gwaith yn parhau i wella dibynadwyedd. Nodwyd bod y cerbydau'n perfformio'n ddigonol.
- Dilëwyd cofion nifer sylweddol o ffonau symudol a thabledi yn ystod y cyfnod oherwydd canlyniadau anfwriadol newid meddalwedd arferol. Cafodd yr holl ddyfeisiau eu hailraglennu gyda'r gosodiadau wedi'u hadfer o fewn 10 diwrnod. Mae gwersi wedi cael eu dysgu a'u cofnodi.
- Roedd y rhan fwyaf o ddangosyddion diogelwch yn parhau o fewn y rhagfynegiad, ond roedd pedwar SPaD Categori A yn ystod y cyfnod. Er y bydd y rhagfynegiad diwedd blwyddyn yn cael ei gyflawni ar SPaD, nododd y Bwrdd y nifer anarferol o uchel mewn cyfnod byr. Ymchwilir i bob digwyddiad.

Trafododd y Bwrdd gyflwyno deddfwriaeth newydd sy'n mynnu bod pob gweithle yn gwahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn yr un ffordd ag y mae'r rhan fwyaf o aelwydydd yn ei wneud yng Nghymru. Trafododd y Bwrdd gwmpas y ddeddfwriaeth a materion ymarferol gweithredu. Cytunwyd i drafod hyn ymhellach yng nghyfarfod Tîm Arwain Gweithredol TrC **[Gweithredu Leyton Powell]**.

**5.1 Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**5.2 Adroddiad Sicrhau Diogelwch**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**6. Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd**

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o'r dangosfwrdd risg.

**7. Y Newyddion Diweddaraf am y Gororau**

*Ymunodd Piers Croft â'r cyfarfod.*

Trafododd y Bwrdd adnoddau ar y trên i wella profiad cwsmeriaid gwasanaethau'r Gororau ymhellach.

[redacted]

Cafwyd trafodaeth ar amrywiaeth o opsiynau posibl ar gyfer rhoi gwell gwybodaeth i gwsmeriaid pan oedd y gwasanaeth Dosbarth Cyntaf yn anweithredol. Nodwyd bod swyddfeydd tocynnau nawr yn cael gwybod pan nad oedd y gwasanaeth yn gweithredu er mwyn i'r wybodaeth gael ei throsglwyddo i gwsmeriaid sy'n prynu tocynnau.

Cafwyd trafodaethau pellach ar refeniw, cynllun capasiti, boddhad cwsmeriaid a pherfformiad cerbydau.

Cytunwyd y bydd y newyddion diweddaraf am y Gororau yn cael ei darparu bob deufis.

*Gadawodd Piers Croft y cyfarfod.*

**8. Targedau perfformiad 24/25**

*Ymunodd Colin Lea â'r cyfarfod.*

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ers y cyfarfod blaenorol ar ragor o drafodaethau a chynigion ynghylch rhagolygon sylfaen ar gyfer perfformiad 2024/25. Hysbyswyd y Bwrdd bod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo gyda'r swyddogaethau busnes i gytuno ar dargedau ar ben rhagolygon sylfaenol. Trafododd y Bwrdd y targedau perfformiad arfaethedig ar gyfer 2024/25, eu hadolygu a'u cymeradwyo, a chytunodd i'w hadolygu ymhellach, ac os oedd angen, ailedrych ar y targed PTL ym mis Mehefin 2024. Cytunwyd hefyd i drafod targedau rheoli yn yr is-bwyllgor Perfformiad Gweithredol i annog diwylliant o berfformiad ymhellach.

*Gadawodd Colin Lea y cyfarfod.*

**9. Adolygiad ariannol**

*Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod.*

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am refeniw a pherfformiad gwariant cyfalaf ar gyfer y cyfnod a'r alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol. Nododd y Bwrdd amrywiadau a chynlluniau ar gyfer gwariant cyfalaf cyn diwedd y flwyddyn.

*Gadawodd Stephanie Raymond y cyfarfod.*

**9. Diweddariad marchnata**

*Ymunodd Lewis Brencher â'r cyfarfod.*

Hysbyswyd y Bwrdd, yn amodol ar ddilysu pellach, bod y targed i sicrhau enillion cyffredinol ar fuddsoddiad o 3:1 wedi'i gyflawni. Er bod lefelau targed wedi cael eu cyflawni, mae gwersi'n cael eu dysgu i annog hwb pellach ar refeniw cynyddol a chynyddu'r enillion cyffredinol ar fuddsoddiad ar gyfer gwariant 2024/25.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am ymgyrchoedd a risgiau sydd wedi'u cwblhau a'r rhai sy'n barhaus o ran cyflawni'r cynllun marchnata presennol.

**10. Strategaeth giatiau ar gyfer y dyfodol**

Ystyriodd y Bwrdd gynnwys papur a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu Strategaeth Giatiau ar gyfer y Dyfodol, gan amlinellu rhestr arfaethedig o orsafoedd i osod giatiau, gan gynnwys lleoliadau newydd nad ydynt ar rwydwaith TrC ar hyn o bryd. Cymeradwyodd y Bwrdd y dull gweithredu arfaethedig.

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.**